

# **Ceredigion**

**Cynllun Datblygu Lleol  
2007 - 2022**

**Cadwraeth Natur a Chynlluniau Ynni Dŵr  
Graddfa Fach**

**Taflen Gymorth**







## Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Gofynion Arolwg	4
3. Osgoi, Lliniaru, Gwneud lawn a Gwelliannau	8
4. Manylion Cyswllt	10
5. Dogfennau, dolenni a chyfeiriadau defnyddiol	11



1. Cyflwyniad
  - 1.1.1 **Nod y Daflen Gymorth hon yw adeiladu ar y cyfarwyddyd a geir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cadwraeth Natur, er mwyn egluro pa wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda chais am gynllun ynni dŵr graddfa fach, mewn perthynas â chadwraeth natur. Mae'n cynnwys canllawiau bras ar y gofynion arolwg, fodd bynnag, cynghorir datblygwyr i siarad â'r Awdurdod Lleol (ALI) cyn cyflwyno'r cais i gael cyngor penodol ymlaen llaw.**
  - 1.1.2 Mae'r cyfarwyddyd yn galluogi datblygwyr i gydymffurfio â dull rhagweithiol y Cyngor Sir o sicrhau amgylchedd naturiol o ansawdd uchel, ac i gwrdd â dyletswyddau statudol a chyfrifoldebau cymdeithasol, tra'n mabwysiadu agwedd bositif tuag at ynni adnewyddadwy. Bydd yn cynnig arweiniad ar gwrdd yn arbennig â pholisi DM14 y CDLI: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolol a DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol, yn ogystal ag elfennau o DM06: Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel; DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd a DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol.
  - 1.1.3 Sylwer bod y canllawiau hyn ar gyfer gofynion penodol cynlluniau ynni dŵr graddfa fach yn unig, ac felly dylid eu darllen ar y cyd â'r CCA Cadwraeth Natur, sy'n darparu cyngor mwy cyffredinol.
  - 1.1.4 Yn ogystal â chaniatâd cynllunio, dylid nodi y bydd gofyn hefyd cael trwyddedau tynnu/cronni dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn ogystal â Chaniatâd Amddiffyn Rhag Llifogydd er mwyn gweithio yn yr afon/o fewn 7m o'r afon. Mae CNC wedi cynhyrchu canllawiau (NRW, n.d<sup>a</sup>, NRW, n.d<sup>b</sup>) a bydd gofyn cydymffurfio â'r rheiny yn ogystal â'r Daflen Gymorth hon. Fe'ch cynghorir hefyd i gysylltu â CNC gan ddefnyddio'u gwasanaeth cyn gwneud cais, yn gynnar yn ystod y broses ddylunio. Ewch i [wefan CNC](#)<sup>1</sup> i gael mwy o wybodaeth.
  - 1.1.5 Fodd bynnag, os nad yw'r cynllun mewn prif afon, dylid cysylltu ag Adran Afonydd ac Arfordiroedd yr ALI i gael Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin i osod strwythur o fewn yr afon/nant. Dylech gysylltu â'r Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Cludiant, Adran Arfordir ac Afonydd Cyngor Sir Ceredigion ar [hpw@ceredigion.gov.uk](mailto:hpw@ceredigion.gov.uk) am gyngor neu i gael copi o'r ffurflen gais ynghyd â nodiadau cyfarwyddyd. Fe'ch cynghorir i drafod eich cynnig gyda'r Awdurdod cyn dechrau ar y gwaith er mwyn sicrhau bod modd asesu'r gwaith arfaethedig i benderfynu a fydd yn achosi problem llifogydd, neu'n gwaethygu un sy'n bodoli eisoes, neu'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, pysgodfeydd a/neu fywyd gwylt lleol.
  - 1.1.6 Gweler **Ffigur 1** am amlinelliad o'r broses mewn perthynas â'r gofynion ecolol.

---


<sup>1</sup> <http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/apply-and-buy/water-licences-discharges/water-abstraction-and-impoundment-licensing/hydropower/hydropower-how-to-apply-for-your-hydropower-scheme/?lang=en>

**Negeseuon allweddol y cyfarwyddyd a geir yn y Daflen Gymorth hon a'r CCA Cadwraeth Natur (gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur am fwy o wybodaeth (CCA CN)).**

- Bydd gofyn i'r sawl sy'n gwneud cais am gynllun ynni dŵr graddfa fach i gyflwyno adroddiad arolwg ecolegol. Bydd lefel yr arolwg angenrheidiol yn dibynnu ar natur a maint y datblygiad, a sensitifrwydd y cynefin a'r rhywogaethau cyfagos. Yn ddelfrydol dylai'r arolygon fodloni'r holl ganiatâd angenrheidiol a'r gofynion trwyddedu h.y. y gofynion o ran caniatâd cynllunio a thrwyddedau tynnu/cronni dŵr (a ddarperir gan CNC).
- Mae cyngor ar gael cyn gwneud cais gan yr ACLI, gan gynnwys Ecolegydd yr ALI os gwneir cais (codir tâl bychan o bosib) i drafod yr arolygon angenrheidiol a ph'un ai ydy'r mesurau lliniaru a'r cynlluniau a awgrymir yn addas.
- Dylid cynnal arolygon ar ddechrau'r broses i hwyluso'r gwaith dylunio, yn hytrach na cheisio sicrhau bod y canlyniadau'n cyd-fynd â'r cynllun fel y mae.
- Mae yna rai arolygon a mesurau lliniaru y gellir eu cynnal yn ystod tymhorau arbennig yn unig, ac felly mae angen ystyried hyn wrth amseru'r cais a'r gwaith o adeiladu'r datblygiad.
- Dylai'r adroddiadau gynnwys canlyniadau'r arolwg **YN OGYSTAL AG** asesiad o effaith y datblygiad ar y rhywogaethau/cynefinoedd/safleoedd, argymhellion o ran mesurau lliniaru e.e. amseriad y gwaith a'r mesurau lliniaru, monitro ac ati.
- **Rhaid** cynnwys y camau gweithredu a'r mesurau lliniaru a argymhellir yn yr adroddiadau a'r cyngor hwn yn y cynlluniau arfaethedig pan fyddant yn ymwneud â chynllun y datblygiad, y dyluniad ac ati, oni bai bod y Swyddog Cynllunio wedi cytuno nad yw hynny'n angenrheidiol. Bydd argymhellion eraill (megis trwyddedau ar gyfer rhywogaethau a warchodir, cytundebau rheoli, amseru ac ati) yn dod dan yr amodau/ cyngorion cynllunio, yn dibynnu ar y cyd-destun. Mewn rhai achosion, gall fod angen cytundebau Adran 106 pan nad yw'r amodau'n addas. Yn dibynnu ar y safle a'i nodweddion, gall fod angen cyfraniad ariannol ar gyfer rheoli/prynu tir.
- Mae gofyn cynnal arolygon, asesiadau ac adroddiadau yn unol â Safonau Bioamrywiaeth Prydain: Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013) a chanllawiau perthnasol (oni bai bod yna wyriadau y gellir eu cyfiawnhau) a chan ecolegydd gwybodus a phrofiadol sydd â chymwysterau addas.



**Ffigur 1.** Amlinelliad o'r broses gynllunio mewn perthynas â chadwraeth natur a chynlluniau ynni dŵr graddfa fach.



\* Prif gyfrifoldebau'r ALI, mewn perthynas â chynllunio, yw'r effeithiau ar y rhan o'r afon nad yw wedi'i darwagio, effeithiau'r adeiladu, effeithiau mynedfeydd, ceblau ac ati. Prif gyfrifoldebau CNC yw effeithiau'r tynnu/cronni dŵr, sef yr effeithiau ar ecoleg y rhan o'r afon sydd wedi'i darwagio, rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, yr effeithiau ar bryoffytau. Mae yna rywfaint o orgyffwrdd lle mae cynlluniau ynni dŵr yn rhan o, neu'n debygol o effeithio ar Safleoedd a Warchodir gan Ewrop, yn sgil yr asesiadau ychwanegol sy'n ofynnol gyda chynlluniau o'r fath.

## 2. Gofynion Arolwg

- 2.1.1 Bydd gofyn i bob Datblygiad Ynni Dŵr Graddfa Fach i gwrdd â pholisïau Cenedlaethol (polisiâu perthnasol o fewn Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) 5 a TAN 8); polisiâu Lleol (Polisiâu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion Polisiâu DM14 a DM15) a Safonau Prydain ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013), yn ogystal â gofynion eraill perthnasol Safonau Prydain ar gyfer Coed mewn Perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu (BS5837:2012), Rheoliadau Gwrychoedd 1997 ac ati. Mae'n ofynnol hefyd bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd (Rheoliad 9(5)) ac Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.
- 2.1.2 Er mwyn i'r Cyngor allu penderfynu a ydy'r cais yn cydymffurfio â'r polisiâu hyn, ac i sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau cyfreithiol, bydd angen cynnal Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) o'r safle a'r ardal gyfagos i gefnogi unrhyw gais am gynllun ynni dŵr graddfa fach arfaethedig, waeth beth yw ei faint na'i leoliad.
- 2.1.3 Gall fod angen arolygon pellach, yn dibynnu ar natur, graddfa a lleoliad y cynllun ynni dŵr graddfa fach a sensitifrwydd yr amgylchedd lleol. Argymhellir bod gofynion yr arolygon yn cael eu trafod a'u cytuno gyda'r ALI/CNC cyn eu cynnal i osgoi oedi'n nes ymlaen.
- 2.1.4 Yn gyffredinol, mae gofyn hefyd i gynlluniau ynni dŵr i gwrdd â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000, Cyfarwyddeb Llyswennod 2007 a Deddf yr Amgylchedd 1995, fodd bynnag delir â'r agweddau hyn yn bennaf trwy'r broses o sicrhau trwydded tynnu/cronni dŵr. Er mwyn gwneud cais am drwydded tynnu/cronni dŵr, gall CNC ofyn am fwy o wybodaeth na'r hyn sy'n ofynnol yma. Dylech gysylltu â CNC i gael mwy o wybodaeth. Lle bo modd, fe'ch cynghorir i gyfuno'r holl arolygon ar gyfer yr ALI a CNC er mwyn lleihau costau ac arbed amser.
- 2.1.5 Mae'n ofynnol bod pob arolwg yn cael ei gynnal gan ecolegydd sydd â chymwysterau, gwybodaeth a phrofiad addas, yn ystod y tymor priodol ac yn unol â safonau a methodoleg arolygon priodol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur (CCA CN) (fydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)) yn darparu gwybodaeth bellach am y gofynion arolwg ac amseriad arolygon yn gyffredinol.

## 2.2 Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol

2.2.1 Bydd gofyn cynnal astudiaeth ddesg ac arolwg maes i bennu'r tebygolrwydd o unrhyw effaith bosib ar fioamrywiaeth. Rhaid i'r rhain gynnwys safle'r cynllun ynni dŵr graddfa fach ac unrhyw weithfeydd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad megis mynedfeydd, gwella mynedfeydd (gan gynnwys codi gwrychoedd), gosod ceblau, cymysgu concriid ac ati. Mae'r rhestr ganlynol yn darparu arweiniad ar yr agweddau y dylid eu cynnwys yn y gwerthusiad ecolegol rhagarweiniol (PEA). Ceir canllawiau cyffredinol ar gynnal gwerthusiad ar wefan Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM)<sup>2</sup> ac ar wefan Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain<sup>3</sup>. Rhestrir y gofynion mwy penodol isod.

## 2.3 Astudiaeth Ddesg

2.3.1 Mae gofyn cael yr wybodaeth ddesg ganlynol er mwyn gallu cynnal asesiad desg o'r effeithiau posib.

### Gofynion Astudiaeth Ddesg

Safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol o fewn 2km o'r datblygiad arfaethedig;

Safleoedd afon/morol dynodedig statudol ac anstatudol i fyny ac i lawr yr afon o'r datblygiad arfaethedig;

Cofnodion salmonidau a llyswennod sy'n magu ar, neu i fyny'r afon o'r safle (CNC)\*

Rhestru unrhyw rywogaethau dan Adran 42 o Amgylcheddau Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 ac yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) Lleol perthnasol (cofnodion rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau nodedig) (gan gynnwys rhai â blaenoriaeth)) o fewn 2km. Hefyd rhestru statws gwybyddus presennol y rhywogaeth os yw'n hysbys. \*

Lleoliad nodweddion dŵr eraill o fewn 200m

Cynlluniau ynni dŵr graddfa fach ar hyd yr un afon sydd wedi cael caniatâd neu sydd ar gael i'r cyhoedd o fewn y system gynllunio.

\*Rhaid cael y rhain o'r Ganolfan Cofnodion Lleol (Canolfan Gwybodaeth am Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru) a ffynonellau eraill ychwanegol perthnasol megis cofnodwyr sirol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati. Codir tâl amdanynt o bosib

## 2.4 Arolwg Maes

2.4.1 Dylid cynnal Arolwg Cynefin Cam 1 Estynedig a'i gwblhau'n unol â'r *Llawlyfr Arolygon Cynefin Cam 1 - Techneg archwiliad amgylcheddol* (JNCC, 2010) (gweler hefyd ganllawiau Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol y CIEEM) (troednodyn 1 uchod) a dylid paratoi adroddiad i gyd-fynd â'r astudiaeth ddesg ar **safle'r cynllun ynni dŵr yn ogystal â chlustogfa 250m** a'r

<sup>2</sup> <http://www.cieem.net/guidance-on-preliminary-ecological-appraisal-gpea->

<sup>3</sup> <http://www.british-hydro.org/>

**ardaloedd eraill megis y mannau lle mae'r dŵr yn gadael ac yn ail-ymuno â'r afon, y rhan o'r afon sydd wedi'i darwagio, lleoliad y bibell/cafn dŵr ffo (*tailrace*), y ceblau, y trac mynediad a lleoliad y tŷ tyrbin ac ati, yn ogystal â chlustogfa 100m.**

2.4.2 Dylid ymestyn hwn i gynnwys:

Gofynion Arolwg Maes
<b>Gwerth y cynefin a'r cynefin cyfagos gan gynnwys unrhyw ardaloedd a effeithir gan y mannau lle mae'r dŵr yn gadael ac yn ail-ymuno â'r afon, y rhan o'r afon sydd wedi'i darwagio, lleoliad y bibell/cafn dŵr ffo, y trac mynediad a lleoliad y tŷ tyrbin.</b>
Gwerth gwrychoedd fel y'u diffinnir dan Reoliadau Gwrychoedd 1997, nid Cam 1 yn unig
Arwyddion o ddefnydd gan rywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth e.e. moch daear, dyfrgwn, llygod y dŵr ac ati
Cofnodion achlysurol gan gynnwys adar magu, adar sy'n chwilota am fwyd yn y gaeaf, ymlusgiaid ac ati
Nodiadau targed a nodiadau cyffredinol ynghylch cynefinoedd posib ar gyfer rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth
<b>Dylai'r holl adeiladau, coed neu nodweddion all gael eu heffeithio gan y datblygiad ynni dŵr graddfa fach gael eu hasesu'n allanol, ac, os yn bosib, yn fewnol ar gyfer ystlumod all fod yn clwydo yno, yn unol â Chanllawiau Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod 2012 a Mitchel-Jones 2004, gan gynnwys tir nad yw'n berchen i'r ymgeisydd. Dylid cynnwys hefyd unrhyw draciau mynediad lle gall fod angen tocio neu gwympo coed, gan danseilio neu ddifrodi'u gwreiddiau.</b>

## 2.5 Adroddiad

2.5.1 Dylai'r adroddiad gynnwys canlyniadau'r uchod, ynghyd ag **asesiad o'r effeithiau**, gan gynnwys argymhellion ar gyfer arolygon pellach (neu gyfiawnhad dros beidio â chynnal arolygon pellach), a'r effaith gronnu ochr yn ochr â chynlluniau ynni dŵr a phrosiectau eraill sy'n cael effaith debyg.

2.5.2 Dylai hwn gynnwys asesiad o'r effeithiau yn ystod, ac ar ôl y gwaith adeiladu, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Yr effeithiau ar safleoedd a warchodir neu'u nodweddion
  - E.e. llygredd, colli cynefin, effaith ar rywogaethau mudol (yn arbennig adar, pysgod, dyfrgwn ac ati)
- Colli cynefin

- E.e. cynefin llyswennod ifanc, rhwystro salmonid rhag mudo, adar yn sgil aflonyddu ar eu cynefin, colli clwydi ystlumod mewn coed, dinistrio gwâl dyfrgwn, dinistrio setiau moch daear, colli ardaloedd lle mae ymlusgiaid yn torheulo/gaeafgysgu, ardaloedd lle mae amffibiaid yn bwydo, safleoedd lle mae adar yn magu ac ati, colli cynefin BAP, effaith y gostyngiad yn llif y dŵr ar ecoleg dŵr y nant/afon neu lyn cyfagos/a effeithir.
- Aflonyddu
  - E.e. ar ystlumod/adar yn eu cynefin, adar magu yn ystod y tymor nythu, moch daear, llygod y dŵr, dyfrgwn sydd wrthi'n magu, salmonidau sy'n silio.
- Dadleoli
  - E.e. salmonidau o safleoedd silio
- Marwolaeth rhywogaethau unigol
  - E.e. lladd/anafu ymlusgiaid, lladd/anafu moch daear, lladd pysgod yn ystod y gwaith adeiladu/gweithredu'r cynllun ynni dŵr, lladd/anafu dyfrgwn, tynnu cen, bryoffytâu a mwsoglau.
- Effeithiau cronus
  - Pob un o'r uchod

## **2.6 Arolygon mwy manwl a gwybodaeth bellach**

- 2.6.1 Yn dibynnu ar leoliad (gan gynnwys yr angen i'w ddiogelu), maint a manylion y cynllun, gall fod angen cynnal arolygon mwy manwl er mwyn pennu graddau llawn yr effeithiau uchod.
- 2.6.2 Rhaid i'r broses o bennu'r effeithiau a'r arolygon pellach angenrheidiol (ar ran y datblygwr) mewn perthynas â'r rhan o'r afon sy'n cael ei darwagio a swyddogaeth y tyrbîn, gan gynnwys salmonidau sy'n mudo, llyswennod/llyswennod ifanc, bryoffytâu a chreaduriaid di-asgwrn-cefn yr afon, gael eu trafod a'u cytuno gyda CNC (ond sylwer lle bo safleoedd a warchodir gan Ewrop yn cael eu heffeithio, gall yr ALI ofyn am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r agweddau hyn). Rhaid cynnwys cytundebau gyda CNC ynghylch lefel yr arolygon a chanlyniad yr asesiadau, gyda'r adroddiadau. Gweler canllawiau CNC am fwy o wybodaeth.
- 2.6.3 Mae'r ALI yn gyfrifol am bennu'r effeithiau a gwneud cais am arolygon pellach gan y datblygwr ar gyfer pob agwedd arall, gan gynnwys effeithiau'r gwaith adeiladu, mynedfeydd, gosod ceblau ac ati ac felly dylid trafod a chytuno ar y rhain ymlaen llaw gyda'r ALI.
- 2.6.4 Bydd gofyn cael Datganiad Atal Llygredd i ddangos sut y bydd y cwrs/cyrsiau dŵr a'r cynefin cyfagos yn cael eu hamddiffyn rhag llygredd a gwaddodiad.

### 3. Osgoi, Lliniaru, Gwneud iawn a Gwelliannau

3.1.1 Mae'r wybodaeth ganlynol yn manylu ar y ffordd y gallwch osgoi effeithio ar fywyd gwyllt, lliniaru a lleihau'r effeithiau, a gwneud iawn am unrhyw effeithiau na ellir eu lliniaru'n unol â TAN 5 a Pholisi DM15 y CDLI: Cadw Bioamrywiaeth Leol. Rhestrir rhai awgrymiadau am welliannau isod hefyd, ond bydd y rhain yn safle-benodol ar y cyfan a dylent gael eu hargymell gan yr ymgynghorydd ecolegol.

### 3.2 Osgoi a Lliniaru

3.2.1 Wrth gynllunio lleoliad a gwaith adeiladu'r cynllun ynni dŵr graddfa fach, er mwyn ceisio lleihau'r perygl i fywyd gwyllt, dylid ymgorffori'r canlynol o fewn y dyluniad a'r dewis o leoliad. Gall hyn leihau maint y lliniaru a lefel yr ymdrech arolwg angenrheidiol, ac mewn rhai achosion, y gwrthwynebiad ecolegol i'r cynllun ynni dŵr. Gellir pennu'r rhan fwyaf o'r elfennau hyn o'r Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol, ond bydd angen arolygon pellach ar gyfer rhai elfennau.

- **Dylid gosod cynlluniau ynni dŵr graddfa fach ar hyd rhannau o'r afon sydd o werth ecolegol isel, a dylai unrhyw geblau, traciau mynediad neu ofynion eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun, gan gynnwys mynedfeydd oddi ar y safle, osgoi cael gwared â choed, gwrychoedd, glaswelltir corsiog neu unrhyw gynefin sy'n bwysig i fioamrywiaeth.** Pan nad ydynt, gall fod angen arolygon pellach, gan gynnwys arolygon cynefin Cam II, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, adar, ymlusgiaid ac ati yn dibynnu ar ansawdd y cynefin a effeithir. Yn arbennig, dylid ceisio osgoi eu gosod o fewn lleoliadau a warchodir, yn ogystal â rhannau pwysig o'r afon ar gyfer salmonidau a llyswennod sy'n mudo, ac ardaloedd magu ar gyfer llyswennod ifanc.
- **Dylid lleoli'r datblygiad i ffwrdd o unrhyw wâl neu fannau gorffwys dyfrgwn.** Dylid gofyn cyngor arbenigwr ar ddyfrgwn os canfyddir bod yna wâl neu fan gorffwys dyfrgwn ar/ger y safle arfaethedig.
- **Dylid lleoli'r datblygiad i ffwrdd o dyllau a chynefin bwydo llygod y dŵr.** Dylid gofyn cyngor arbenigwr ar lygod y dŵr/mamaliaid bach os canfyddir arwyddion o lygod y dŵr ar/ger y safle arfaethedig.
- **Dylid osgoi cloddio o fewn 30m o set sy'n cael ei ddefnyddio gan foch daear.** Pan fydd o fewn 30m, bydd gofyn cytuno ar fesurau lliniaru priodol. Mwyaf tebyg y bydd angen trwydded moch daear ar gyfer amharu ar setiau moch daear at ddibenion y datblygiad.
- **Dylid rhoi gorchudd dros ben unrhyw gloddfeydd yn ystod y nos i ddarparu dihangfa** e.e. gosod astell yn y gloddfa er mwyn i unrhyw anifeiliaid, bach neu fawr, allu dianc.
- **Dylid osgoi adeiladu pan fydd yr ysgyfarnog frown yn magu** (a bennir gan yr arolwg cyn adeiladu).
- **Dylid adeiladu'r cynllun y tu allan i dymor magu'r adar.** Bydd hyn fel arfer o Fawrth i Awst yn gynwysedig, ond gall fod o Chwefror i Fehefin yn gynwysedig ar gyfer y barcud coch. Pa na fwriedir gwneud hynny, bydd angen arolygon o adar magu, gan gynnwys chwiliadau am nythod barcud coch o fewn 600m. Yn dibynnu ar y lleoliad (e.e. coetir

trwchus), gall fod angen arolygon eang o adar magu. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mwyaf tebyg y bydd angen osgoi tymor magu'r adar.

- **Ni ddylai cynlluniau ynni dŵr rwystro salmonid a pysgod eraill rhag mudo.** Gweler canllawiau CNC am wybodaeth bellach. Sylwer y gall fod angen gofynion pellach pan fydd y lleoliad yn safle a warchodir ar gyfer pysgod sy'n mudo.
- **Pan fydd pysgod yn bresennol, neu'n debygol o fod yn bresennol, dylid cynnal y gwaith ar y nant ei hun y tu allan i dymor mudo a silio'r pysgod (15 Hydref i 15 Ebrill yn gynwysedig).**
- **Bydd yn rhaid i'r dull o weithio atal llygredd a sicrhau'r lleiaf posib o waddodiad i'r cwrs dŵr.** Bydd angen cynhyrchu Datganiad Atal Llygredd a'i ymgorffori yn y Datganiad Dull o Adeiladu.

### **3.3 Gwneud iawn**

3.3.1 Gyda pheth cynefin a effeithir, gall fod modd ei ail-greu neu ymgorffori mesurau gwneud iawn eraill. Er enghraifft, os nad oes unrhyw opsiwn mynediad arall yn hytrach na chael gwared â nifer o goed unigol, rhaid cynnwys a gweithredu cynllun plannu mewn man arall i wneud iawn am hynny, gan gynnwys gardiau cwingod a ffensio i gadw stoc allan, gan osgoi setiau moch daear, glaswelltir corsiog ac ati. Rhaid ymgorffori'r ardaloedd gwneud iawn arfaethedig o fewn y Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol ac ar y cynlluniau.

### **3.4 Gwelliannau**

3.4.1 Bydd gwelliannau ecolegol yn ofynnol ar gyfer pob cais am gynllun ynni dŵr graddfa fach yn unol â Pholisïau DM06 a DM15 y CDLI yn ogystal â TAN 5. Bydd y gwelliannau mwyaf priodol yn dibynnu ar y safle. Gall y gwelliannau gynnwys creu mannau gaeafgysgu ar gyfer ymlusgiaid, rheoli ffosydd mewn ffordd bositif, creu pyllau, plannu gwrychoedd/coed ychwanegol, cyfundrefnau rheoli amgen ar gyfer nodweddion tir/ffiniau, blychau ystlumod/adar, gwâl dyfrgwn, gostwng lefelau pori, ffensio o amgylch ardaloedd ucheldir ac ati.

### **3.5 Monitro**

3.5.1 Pan fo'n briodol, gall fod yn ofynnol monitro ar ôl datblygu'r cynllun ynni dŵr. Er enghraifft, gall hyn fod er mwyn canfod a ydy pysgod yn gallu pasio, neu'r effaith ar ddyfrgwn. Mewn rhai achosion, gall fod yn fwy priodol i ychwanegu amod sy'n gofyn am ganiatáu mynediad i'r safle i'r ALI neu berson a benodir gan yr ALI at ddibenion monitro. Bydd y gofynion yn rhai safle-benodol.

4. Manylion Cyswllt

**Awdurdod Lleol**

Cysylltwch ag Ecolegydd cynllunio'r ALI ar [ecology@ceredigion.gov.uk](mailto:ecology@ceredigion.gov.uk) neu ffoniwch 01545 572147.

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Cysylltwch â CNC ar [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk), ffoniwch 0300 065 3000 neu ewch i'w gwefan <http://naturalresourceswales.gov.uk>.

**Ymddiriedolaethau Afonydd**

**Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi**

E-bostiwrch [wjmwales@gmail.com](mailto:wjmwales@gmail.com) <<mailto:wjmwales@gmail.com>>, ffoniwch 01545 590153 neu ewch i'w gwefan [http://www.teifirivertrust.com/?page\\_id=617](http://www.teifirivertrust.com/?page_id=617).

**Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt**

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru  
Ffoniwch 01656 724100 neu ewch i'w gwefan <http://www.welshwildlife.org/contact-us/>.

**Canolfan Cofnodion Lleol**

Canolfan Gwybodaeth am Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru  
Ffoniwch 01994 241468 neu ewch i'w gwefan <http://www.wwbic.org.uk>



## 5. Dogfennau, dolenni a chyfeiriadau defnyddiol

Canllawiau Arfer Da Arolygon Ystlumod (2012) – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod

BSI (2013) Safonau Prydeinig ar Fioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013)

Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain (2012) Canllawiau Hydro Mini [Ar gael ar-lein]

[http://www.british-hydro.org/Useful%20Information/mini\\_hydro\\_guide](http://www.british-hydro.org/Useful%20Information/mini_hydro_guide)

Cyngor Sir Ceredigion (2015) *Cynllun Datblygu Lleol - Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni*

Cyngor Sir Ceredigion (2015) *Cynllun Datblygu Lleol - Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur*

CIEEM (2013) Canllawiau Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol [Ar gael ar-lein]

[http://www.cieem.net/data/files/Resource\\_Library/Technical\\_Guidance\\_Series/GPEA/GPEA\\_April\\_2013.pdf](http://www.cieem.net/data/files/Resource_Library/Technical_Guidance_Series/GPEA/GPEA_April_2013.pdf)

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010)

Rheoliadau Gwrychoedd 1997

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). (n.d.). Adalwyd o wefan JNCC:

<http://jncc.defra.gov.uk/>

Mitchel-Jones, A. and McLeish, A. (2004) *Bat Workers Manual*. [Ar gael ar-lein]

<http://jncc.defra.gov.uk/page-2861>

Deddf Amgylcheddau Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006)

Cyfoeth Naturiol Cymru (n.d.<sup>a</sup>). Nodyn Cyfarwyddyd Ynni Dŵr (HGN) 2 - Safonau Llif Ynni Dŵr. [Ar gael ar-lein]

<http://naturalresourceswales.gov.uk/content/docs/pdfs/apply-and-buy/hydropower-guidance/hgn-2-hydropower-flow-standards.pdf?lang=en>

Cyfoeth Naturiol Cymru (n.d.<sup>b</sup>). Nodyn Cyfarwyddyd Ynni Dŵr (HGN) 6 - Cadwraeth Natur, Treftadaeth, Harddwch a Thirwedd. [Ar gael ar-lein]

<http://naturalresourceswales.gov.uk/content/docs/pdfs/apply-and-buy/hydropower-guidance/hgn-6-nature-conservation-heritage-amenity-and-landscape.pdf?lang=en>

Deddf Gwarchod Moch Daear (1992)

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2009). *Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010). *Polisi Cynllunio Cymru*.

Canolfan Gwybodaeth am Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC)

<http://www.wwbic.org.uk/>

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. (1981). (*diwygiedig*).